e:newsletter
North East Wales Biodiversity Network
Haf 2012
Rhifyn 003



## Bywyd yn Nythfa Môr-wenoliaid Bach Gronant *gan Wendy Williams, Warden y Môr-Wenoliaid Bach*

Am dri mis yn ystod yr haf, mae darn bach o raean bras ar arfordir Gogledd Cymru'n cael ei feddiannu gan ymwelwyr o Affrica. Y cynefin hwn, yng Ngwarchodfa Natur Leol Gronant ar y ffin rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ydy'r unig dir magu sydd wedi goroesi yng Nghymru i aderyn môr prinnaf Prydain sef y môr-wennol fach. Er mwyn i'r adar barhau i ddefnyddio'r traeth i fagu, mae Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn eu gwarchod bob awr o'r dydd.

Fe'm cyflogwyd yn warden amser llawn yn nythfa'r môr-wenoliaid bach ers dwy flynedd bellach a, thrwy gydol y tymor magu, fe fyddaf fi neu fy nghydweithwyr, Andy Farrel neu Tom Hiles, i'n gweld yn y twyni yng Ngronant. Ein cyfrifoldebau o ddydd i ddydd ydy siarad ag ymwelwyr, gwneud gwaith cynnal a chadw ar y ffensys trydanol ond, yn bwysicach byth, cadw llygad am ysglyfaethwyr a helpu'r môr-wenoliaid bach i warchod eu cywion.

Hyd yn oed gyda'n cymorth ni, rhaid i'r môr-wenoliaid frwydro'n ddi-baid i oroesi. Bu pâr o gudyll coch yn nythu ger y nythfa ers nifer o flynyddoedd ac maen nhw'n ysglyfaethwyr dyfal, ac weithiau'n mynd â nifer o gywion y dydd i fwydo eu cywion hwythau. Mae brain, gwylanod a llwynogod hefyd yn fygythiad parhaus ond hwyrach y daw'r bygythiad mwyaf o'r môr, pan fydd y gorllanw'n bygwth golchi'r nythod i ffwrdd.

Pan fydd y cywion ar fin deor, byddwn yn cyfrif y nythod a'r wyau er mwyn cael syniad o lwyddiant magu'r nythfa o'r naill flwyddyn i'r llall; hefyd, yn ddiweddarach yn y tymor, gosodir cylchoedd am goesau rhai cywion er mwyn dilyn symudiadau'r nythfa. Pan fydd y môr-wenoliaid bach ar fin teithio'r 4,000 o filltiroedd yn ôl i

Guinea Bissau ar arfordir gorllewin Affrica, byddwn yn cyfrif y cywion bach er mwyn mesur llwyddiant magu'r flwyddyn.

Mae pob diwrnod yn wahanol wrth weithio gyda'r adar bach prydferth hyn. Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn wrth imi gerdded ar hyd y traeth pan fydd yr haul yn codi gyda'r Môr-wenoliaid yn bwydo ac yn paru o'm cwmpas i gyd. Mae'n drist meddwl y buasai môr-wenoliaid bach yn nythu ar hyd arfordir cyfan Gogledd Cymru ar un adeg ond eu bod yn gyfyngedig erbyn hyn i'r ardal fechan hon o draeth yn Gronant. Rwy'n falch iawn o amser a gwaith caled y gwirfoddolwyr sy'n helpu i reoli'r nythfa, oherwydd heb eu hymroddiad hwy, a chyllid prosiect gan Gyngor Sir Ddinbych a Bourne Leisure Group plc, byddai Cymru'n siŵr o golli'r adar carismatig hyn.

Os hoffech chi wirfoddoli i'r gwasanaethau cefn gwlad a helpu'r môr-wenoliaid bach, cysylltwch ag Adrian Hibbert ar adrian.hibbert@denbighshire.gov.uk.





## Cwtiaid torchog yng Nghonwy

Prin yr oeddem yn credu'r adroddiadau a gafwyd y llynedd am bâr o gwtiaid torchog yn ceisio nythu ar un o'r traethau prysuraf yn sir Conwy - sef Traeth Pensarn ger Abergele. Mae'r traeth hwn yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd ei gefn graean bras ac mae'n cael ei reoli gan Wasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Onid yw'n sicr na fyddai'r un aderyn yn ceisio nythu ar y traeth poblogaidd iawn hwn, yng nghanol y caffis a'r arceds, y plant a'r cerddwyr cŵn? Dim ond un ci chwilfrydig sydd ei angen i dynnu sylw'r oedolion, neu eu herlid, a gallai gwylan y penwaig fynd â'r wyau ymhen eiliadau.

Felly, rhag ofn iddyn nhw ddychwelyd eleni, aeth Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ati i gynllunio. Yn ôl y disgwyl, daeth pâr o gwtiaid torchog yn ôl yn gynharach eleni i'r un lle. Ar ôl inni weld yr ymddygiad tiriogaethol, aethom ati i neilltuo'r ardal honno a chodi hysbysiadau i ofyn i bobl gadw draw. Roedd rhaid i'r ffensys fod yn rhai dros dro a rhaid oedd eu codi heb aflonyddu gormod ar yr adar felly penderfynasom beidio â gosod ffensys cadarn sy'n atal cŵn ond dibynnu ar ewyllys da pobl i gadw eu hunain a'u cŵn allan o'r ardal y tu hwnt i'r rhaffau. Yn ffodus, roedd yr ardal hefyd o fewn ardal rheoli cŵn sy'n gwahardd cŵn yn ystod yr haf, felly cawsom hefyd gymorth un o'r staff o'r tîm Morwrol a Phorthladdoedd i atgoffa'r ymwelwyr i gadw eu cŵn draw. Cawsom lawer o gefnogaeth a bu'r bobl leol yn gofyn yn aml inni aros i roi gwybod y diweddaraf am yr adar. Nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl wedi gweld yr adar am fod ganddynt guddliw hynod effeithiol a gall fod yn amhosibl dod o hyd iddynt tra byddan nhw'n y nyth.

Mae gwryw a benyw'r cwtiaid torchog yn eistedd ar yr wyau bob yn ail. Mae'r oedolyn arall yn aros gerllaw ac yn tynnu sylw pobl os byddan nhw'n agosáu at y nyth - hwyrach eich bod wedi gweld yr ymddygiad 'adain doredig' rhyfeddol maen nhw'n arddangos weithiau i ddenu ysglyfaethwyr draw o'r nyth. Felly dyna ni'n monitro'r nyth yn nerfus.

Ar ôl rhyw dair wythnos a hanner o gyfnod gori, roeddem yn falch iawn o gael gwybod gan Brian fod tri chyw bach yn rhedeg o gwmpas gyda'r rhai hŷn.

Mae cwtiaid torchog ifanc yn 'ddatblygedig' felly gallan nhw redeg o gwmpas cyn gynted ag y byddan nhw wedi deor, sy'n eu gwneud ychydig yn fwy diogel mewn amgylchedd sy'n denu cymaint o bobl. Dydyn nhw ddim yn hedfan nes iddyn nhw fagu plu tua 3 wythnos a hanner yn ddiweddarach felly mae'r oedolion yn cadw llygad barcud arnyn nhw ac yn eu rhybuddio rhag peryglon. Yn ffodus, gwelwyd bod y tri chyw i gyd yn dal gyda'u rhieni wythnosau ar ôl iddynt ddeor.

Mae'n hawdd gweld pam mae'r adar hyn o dan fygythiad, gan fod eu mannau magu ar yr arfordir yn destun aflonyddu a phwysau datblygu. Mae nifer y cwtiaid torchog sy'n magu wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf gan olygu eu bod bellach ar y rhestr ambr o adar yng Nghymru; mae'r rhywogaeth hon hefyd yn destun dyletswydd gyfreithiol gan yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru i'w hystyried. Roedd yn fuddiol iawn helpu un pâr bach o'r adar hyn ac arddangos bod bywyd gwyllt yn gallu cydfodoli â ni, hyd yn oed ar draeth prysur i dwristiaid! Drwy gydol y tymor nythu, cawsom gymorth amhrisiadwy gan wirfoddolwyr awyddus iawn a fu'n ymweld yn aml â'r ardal i roi gwybod inni am y datblygiadau. Diolch o galon i bob un ohonyn nhw!




**Cyfrifiad Mawr y Gloÿnnod Byw 2012** *gan Matthew Jones, Myfyriwr yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug*

***Pryd?*** Dydd Sadwrn, 14 Gorffennaf – Dydd Sul, 5 Awst 2012

Arolwg ledled y wlad ydy **Cyfrifiad Mawr y Gloÿnnod Byw** gyda'r nod o'n helpu i asesu iechyd ein hamgylchedd. Fe'i lansiwyd yn 2010 a bu nifer aruthrol o bobl, sef 10,000, yn cymryd rhan, gan gyfrif 210,000 o loÿnnod byw a gwyfynod sy'n hedfan yn ystod y dydd ledled y wlad. Ymunodd llawer mwy o bobl, rhyw 34,000 mewn gwirionedd, â Chyfrifiad Mawr y Gloÿnnod Byw yn 2011.

**Pam cyfrif gloÿnnod byw?** Mae gloÿnnod byw'n ymateb yn gyflym iawn i newid yn eu hamgylchedd sy'n eu gwneud nhw'n ddangosyddion bioamrywiaeth ardderchog. Mae gostyngiadau yn niferoedd y gloÿnnod byw yn rhybudd cynnar rhag colledion eraill yn y bywyd gwyllt. Am y rheswm hwnnw, gellir dweud fod cyfrif gloÿnnod byw fel mesur curiad calon byd natur. Bydd y cyfrifiad yn ein helpu hefyd i adnabod tueddiadau mewn rhywogaethau a fydd yn ein helpu i gynllunio at warchod gloÿnnod byw, yn ogystal â deall effaith newid hinsawdd ar fywyd gwyllt.

# e:newsletter

North East Wales Biodiversity Network

Haf 2012
Rhifyn 003

**Sut i gymryd rhan** Yn syml, cyfrifwch loÿnnod byw am 15 munud yn ystod tywydd braf (tywydd heulog sydd orau) yn ystod **cyfrifiad mawr y gloÿnnod byw**. Rydym wedi dewis yr adeg hon o'r flwyddyn gan fod y rhan fwyaf o loÿnnod byw yn oedolion, felly rydych yn fwy tebygol o'u gweld. Croesawir cofnodion o unrhyw le: o barciau, gerddi a thir ysgol, i gaeau a fforestydd.

Mae gloÿnnod byw yn creu teimlad o heulwen, cynhesrwydd a lliwiau dolydd blodeuog, a gerddi'r haf yn llawn bywyd. Yn bennaf, pryfyn sy'n hedfan yn ystod y dydd ydy'r glöyn byw, o'r urdd *Lepidoptera*, sy'n cynnwys y gloÿnnod byw a'r gwyfynod. Mae ganddyn nhw adenydd mawr, trawiadol, sy'n aml yn lliwgar iawn, ac ehediad amlwg, crynedig. Mae ganddyn nhw ddau bâr o adenydd cennog a dau deimlydd. Fel pob pryfyn, mae ganddyn nhw gorff ac iddo dair rhan: y pen, y thoracs, a'r abdomen. Mae gan bob glöyn byw dri phâr o goesau cymalog, llygaid cyfansawdd a sgerbwd allanol cylchrannol.

Mae rhai gloÿnnod byw yn gallu byw mewn amrywiaeth o gynefinoedd. Gall yr oedolion fwydo ar neithdar o amrywiaeth eang o flodau, a gall y lindys fwydo ar ddail nifer o wahanol fathau o blanhigion. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o loÿnnod byw yn llawer mwy arbenigol, a phob rhywogaeth â'i gofynion arbennig ei hun o ran cynefinoedd, tymheredd, lleithder, planhigion bwyd larfal a ffynonellau bwyd oedolion.

Tua mis Gorffennaf bob blwyddyn mae **52** o wahanol rywogaethau gloÿnnod byw yn y DU. Y 'Porthor' oedd y glöyn byw mwyaf cyffredin ar y cyfan yn 2011, ac amcangyfrifwyd bod 52,368 ohonyn nhw'n y DU. Roedd yr 'Iâr Wen Fach', yr 'Iâr Wen Fawr' a 'Llwyd y Ddôl' yn loÿnnod byw eraill cyffredin iawn. Yma yng **Nghymru**, mae rhywfaint o amrywiad. Mae'r rhestr isod yn nodi y **pum prif rywogaeth** yng Nghymru:
**1**. Yr Iâr Wen Fawr **2.** Llwyd y Ddôl **3.** Yr Iâr Wen Fach **4.** Y Porthor **5**. Yr Iâr Wen Wythiennog.

**I dderbyn mwy o wybodaeth sut i gymryd rhan, ewch i http://www.bigbutterflycount.org/**

## Cofrestrwch i gael E-Newyddion o hyn ymlaen:

- Os hoffech danysgrifio neu ddad-danysgrifio i'n cylchlythyr, cysylltwch â ni.
- Os hoffech gymryd mwy o ran yn unrhyw un o'r prosiectau y soniwyd amdanyn nhw, cysylltwch ag awdur yr erthygl.
- Os hoffech awgrymu rhywbeth i'w gynnwys yn ein E-Newyddion yna cysylltwch â ni.

## Cysylltwch â ni:


**Wrecsam:**
**emma.broad@wrexham.gov.uk**
Ffôn: 01978 292514

**Sir y Fflint:**
**sarah.slater@flintshire.gov.uk**
Ffôn: 01352 703263

**Sir Ddinbych:**
**elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk**
Ffôn: 01824 708263

**Conwy:**
**anne.butler@conwy.gov.uk**
Ffôn: 01492 575123